



Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

Crynodeb Interim

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

ALWEN S. WILLIAMS

Cefndir

Mae'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP) yn anghenraid statudol o dan Ddeddf Plant 2006. Mae Adran 22 Deddf Plant 2006 yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i sicrhau, ble'n bosib, gofal plant digonol i gyfarfod y galw. Yr ADGP yw'r adnodd y gall awdurdodau lleol ei ddefnyddio i adolygu'r cyflenwad a'r angen ar gyfer gofal plant yn yr ardal ac felly amlygu bylchau mewn darpariaeth ac ymdrin â hwy pan fo'n bosib.

Cyd-destun

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cydnabod pwysigrwydd gofal plant o safon trwy weithio mewn partneriaeth trwy Bartneriaeth Datblygiad Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant (EYDCP). Datganiad cenhadaeth EYDCP Conwy yw '*Pob plentyn yng Nghonwy i gael y dechrau gorau posib mewn bywyd*'. Nod yr EYDCP yw sicrhau fod plant yng Nghonwy yn cael mynediad at ofal plant o ansawdd uchel a chyfleoedd chwarae gwerthfawr.

Felly nod yr asesiad ar gyfer 2016 - 17 yw adnabod bylchau yn narpariaeth gofal plant, gan gynnwys:

- Bylchau Daearyddol: diffyg gofal plant yn ôl wardiau etholiadol;
- Bylchau Incwm: diffyg gofal plant fforddiadwy;
- Bylchau Anghenion Penodol: diffyg gofal plant i blant anabl neu anghenion penodol eraill;
- Bylchau Amser: prinder gofal plant hyblyg pan fo ei angen, yn arbennig gan rieni sy'n gweithio;
- Bylchau Oedran: prinder gofal sy'n addas i grŵp oedran penodol;
- Bylchau Iaith: prinder darpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- Bylchau Math: prinder yn y math o ddarpariaeth gofal plant;
- Bylchau teuluoedd sy'n ceisio gwaith: diffyg gofal plant sy'n addas i anghenion rhieni sy'n ceisio gwaith.

Mae Bwrdeistref Sirol Conwy yng nghanol Gogledd Cymru. Mae gan y Fwrdeistref Sirol arwynebedd o 113,000 hectar a phoblogaeth o 116,250 o breswylwyr. Fel rhan o Asesiad Anghenion Lles Lleol a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych, mae Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ei rhannu yn bum ardal; Ardal 1 – Gorllewin Arfordirol, Ardal 2 – Creuddyn, Ardal 3 – Canol Arfordirol, Ardal 4 – Dwyrain Arfordirol, Ardal 5 – Gwledig. Defnyddiwyd yr ardaloedd hyn i lunio'r CSA

Ymgynghorwyd ar ofal plant ledled y sir. Cafwyd safbwyntiau gan y rhanddeiliaid canlynol, rhieni, darparwyr gofal plant, darparwyr chwarae, ysgolion, plant, cyflogwyr, sefydliadau gwirfoddol a phartneriaid o wasanaethau iechyd a'r awdurdod lleol. Bydd yr adroddiad llawn ar gael ym Mai 2017 yn dilyn cyfnod ymgynghori ar y cynllun gweithredu drafft.

Mae'r sefyllfa gyfredol o ran fforddiadwyedd, hygyrchedd a chynnaladwyedd gofal plant ym Mwrdeistref Sirol Conwy wedi ei ddadansoddi ac o ganlyniad cynhyrchwyd y cynllun gweithredu drafft canlynol ar gyfer ystyriaeth bellach. Nodir y canfyddiadau allweddol isod;

Gwarchodwyr Plant

- Ychydig neu ddim dewis o ofal warchodwr plant yn enwedig pan ystyrir un ai iaith, gofal gwyliau, anghymdeithasol neu benwythnos.
- Ymddengys fod y cyflenwad wedi gostwng ar draws y sir ers yr adolygiad ADGP diwethaf ond hefyd ers cwblhau'r SASS.
- Mae'r ystod o ddarpariaeth Cymraeg yn wan yn y rhan fwyaf o ardaloedd. 15% o ddarparwyr yn categoreiddio eu hunain fel Cymraeg neu Gymraeg a Saesneg. Mae nifer y rhieni sy'n dewis cyfrwng Cymraeg neu ysgolion sy'n darparu addysg sylweddol trwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfanswm o 45.5% o'r boblogaeth ysgol. Mae gofal gwarchodwr plant yn y gwyliau yn gyfyngedig trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Yn ddaeryddol mae prinder o warchodwyr plant yn Ardal 1 Gorllewin Arfordirol. Ers cael y datganiadau SASS mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn nodi gostyngiad pellach mewn darpariaeth yn yr ardal hon yn arbennig yn nhrefi Llanfairfechan a Phenmaenmawr. Mae gan Ardal 2 Creuddyn 10 gwarchodwr plant, gyda dim ond tri yn nhref Llandudno sydd â phoblogaeth fawr.
- Dim ond un darparwr yn y sir oedd yn cynnig gofal penwythnos, dim un yn cynnig gofal dros nos.
- Ychydig iawn oedd yn ymddangos i gynnig gofal i blant ag anghenion ychwanegol er gallai hyn fod oherwydd eu bod yn gweithio ar ben eu hunain pan roedd efallai angen darpariaeth 1:1. Ni fyddai hyn yn gynaliadwy ar gyfer gwarchodwr plant.

Gofal dydd llawn

- Yn ddaeryddol y nifer lleiaf o ddarparwyr ac felly roedd yr ystod leiaf o wasanaethau yn Ardal 1 Gorllewin Arfordirol
- Ymddengys bod gan Ardal 4 Dwyrain Gorllewinol ac Ardal 5 Gwledig hefyd ddewis cyfyngedig yn arbennig yn y categori cyfrwng Cymraeg.
- Ychydig iawn o ddarpariaeth hefyd yn Ardal 5 Gwledig. Yn ddemograffig mae cynladwyedd darpariaeth gofal dydd llawn mewn ardaloedd gwledig yn gallu bod yn heriol.
- Mae rhai rhieni yn cael anhawster cael gofal gwyliau
- Mae cyflenwad ar gyfer y grŵp oedran hŷn yn ymddangos yn gyfyngedig ond ychydig o'r grŵp oedran hŷn sy'n dymuno mynychu'r math hwn o ddarpariaeth ar ôl 12 oed.
- Mae gofal oriau anghymdeithasol yn gyfyngedig. Dim ond un darparwr oedd ar agor ar ddydd Sadwrn a dim un ar ddydd Sul.
- Ymddengys fod costau hanner diwrnod ar gyfartaledd (£28.29 a £28.27) ychydig yn rhatach na'r gost diwrnod llawn cyfartalog o £37.18. Ymddengys nad oedd llawer o ostyngiadau ar gael.

Gofal dydd sesiynol

- 39% o'r gwasanaethau yn cael eu cynnal yn y Gymraeg a Chymraeg a Saesneg, o gymharu â 61% yn Saesneg a Saesneg a Chymraeg.
- Yn yr un modd gyda'r nifer o leoedd gofal plant, 37% yn cael eu darparu gan ddarparwyr Cymraeg a Chymraeg a Saesneg o gymharu â 63% a ddarperir gan ddarparwyr Saesneg a Saesneg a Chymraeg
- Yn y Dwyrain Arfordirol dim un o'r darparwyr yn darparu eu gwasanaeth yn llwyr trwy gyfrwng y Gymraeg neu Gymraeg a Saesneg.
- Gorllewin Arfordirol gyda llai o leoedd gofal dydd sesiynol nag ardaloedd eraill. Mae hyn yn unol â diffyg gwasanaethau yn y Gorllewin Arfordirol yn gyffredinol.

- Ychydig iawn o ddarpariaeth yn ystod gwyliau'r ysgol. Tystiolaeth anecdotaidd gan arweinydd grŵp chwarae yn awgrymu fod rhai plant yn elwa o'r grŵp chwarae / Cylch yn bod ar agor trwy gydol y gwyliau gan fod hyn yn rhoi'r cysondeb a threfn arferol iddynt y maent eu hangen.
- Dim gofal plant sesiynol sy'n gweithredu y tu hwnt i oriau gwaith arferol
- Yn gyffredinol mae diffyg gofal amgylchynol i rai 2 – 3 oed

Clybiau Tu Hwnt i'r Ysgol

- Llai o ofal tu hwnt i'r ysgol yn Ardal 1, Gorllewin Arfordirol ac Ardal 4, Dwyrain Arfordirol nag mewn unrhyw ardal arall.
- Dim gofal cyn yr ysgol yn y Gorllewin Arfordirol na'r Creuddyn.
- Dim ond y Creuddyn a Gwledig sydd â lleoedd gofal plant a ddarperir gan leoliadau Cymraeg yn unig. Nid oed gan Gorllewin Arfordirol a'r Canol Arfordirol unrhyw leoedd gofal plant a ddarperir gan leoliadau Cymraeg yn unig.
- Prinder lleoedd gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol
- Yn ystod y gwyliau bron i 80% o wasanaethau yn gweithredu trwy gyfrwng y Saesneg / Saesneg a rhai elfennau dwyieithog.
- Diffyg gofal i oedrannau hŷn – dyma farn y bu i nifer o rieni wneud sylw arno yn yr Arolwg Rhieni.
- Nid oes unrhyw ofal plant tu hwnt i'r ysgol y tu allan i oriau gweithio arferol.
- Mae rhai pentrefi gwledig yn cael anhawster cynnal gofal plant tu hwnt i'r ysgol
- Diffyg clybiau tu hwnt i'r ysgol yng Nghonwy a Chyffordd Llandudno

Chwarae Mynediad Agored

- Dim ond ar gael mewn rhai ardaloedd.
- Dim ond ar gael yn ystod gwyliau'r haf.
- Ddim ar agor trwy'r dydd.

Nani

- Yn gyffredinol gall nani ond weithio gydag un teulu ar y tro gan y gofalir am y plant yn eu cartref eu hunain.
- Gall yr oriau anghymdeithasol a'r gymhareb isel o nani i blant olygu fod y math hwn o ofal plant yn gymharol ddrud, ond mae'r telerau ac amodau yn llwyr rhwng y rhieni, fel y cyflogwr, a'r nani fel y gweithiwr.
- Mae'n anodd cadw gwybodaeth am nanis yn gyfredol

Adborth gan Rien/Gofalwyr

- Nid yw gofal plant ar gael ar yr amser mae rhieni ei angen.
- Ychydig iawn o ddewis yn y mathau o ofal plant sydd ar gael a'r gwasanaethau a gynigir
- Problemau o ofal plant ond ar gael os oes digon o alw

- Gofal plant yn rhy ddrud.
- Rhai rhieni ddim yn gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth am gymorth ariannol ar gyfer gofal plant.
- Diffyg darpariaeth Gymraeg
- Ychydig iawn o Gymraeg a siaredir mewn lleoliadau a fyddai'n disgrifio eu hunain fel dwyieithog ac mae'r Gymraeg a siaredir o safon wael
- Diffyg gofal gwyliu i blant hŷn
- Diffyg clybiau tu hwnt i'r ysgol. Pryderon gyda chlodiant i glybiau tu hwnt i'r ysgol
- Efallai na fydd plant yn gallu mynychu clybiau gweithgaredd mewn ysgolion lleol gan eu bod yn mynychu clwb tu hwnt i'r ysgol mewn pentref gwahanol
- Dim ysgol uwchradd yn cynnig clybiau tu hwnt i'r ysgol
- Gofal i blant sydd ag anableddau
- Diffyg gofal amgylchynol i rai 2 – 3 oed
- Methu cael addysg blynyddoedd cynnar oherwydd cost gofal amgylchynol
- Angen Kids Kamps i blant iau
- Cost gofal Ar ôl Ysgol - efallai bod angen talu am y sesiwn lawn er eu bod ond yn defnyddio awr o'r sesiwn
- Diffyg gofal plant mewn ardaloedd gwledig a chynladwyedd ysgolion a gwasanaethau gofal plant
- Beirniadaeth o'r system credyd treth
- Fawr ddim o gymorth ariannol i rieni sy'n gweithio yn llawn amser

Cyfnod sylfaen

- Nid oedd rhieni yn deall yn llawn neu yn gwybod am y cynllun
- Costau ychwanegol i rieni
- Galw ychwanegol ar leoliadau
- Dim cynnydd mewn arian i leoliadau ers i'r cynllun ddechrau

Dechrau'n Deg

- Nid yw'n wasanaeth cyffredinol sydd ar agor i bob teulu trwy Gonwy ac i blant o bob oedran. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn nodi nifer o ymholiadau gan deuluoedd a fyddai'n elwa o'r cynllun Dechrau'n Deg ond yn anffodus nid ydynt yn byw yn yr ardal cod post priodol

Credyd Treth Gweithio

- Talebau gofal plant a gefnogir gan gyflogwyr yn cael eu cynnig gan ychydig iawn o gyflogwyr.

- Nid yw pobl yn gwybod am yr elfen gofal plant o'r credyd treth gweithio, ansicr os ydynt yn gymwys, a gall rhai gael y broses yn gymhleth.

Y Ffordd Ymlaen

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn parhau i weithio gyda'r Bartneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i ymdrin â'r materion a amlygwyd yn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant a pharhau i gyflwyno ar y cynllun gweithredu.